Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dŷ Bronllys

## Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2022

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg

## a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Thŷ Bronllys

Mae Tŷ Bronllys yn ysgol annibynnol arbennig sydd wedi'i lleoli ar gyrion Aberhonddu. Mae'r ysgol yn darparu addysg a gofal preswyl ar gyfer hyd at 13 o ddisgyblion rhwng 8 ac 19 oed sydd â diagnosis o gyflwr y sbectrwm awtistig (CSA). Agorwyd yr ysgol yn 2007, ac mae'n un o bum ysgol a berchnogir gan Orbis Education and Care Group yng Nghymru a Lloegr.

Mae naw disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd. Mae tua dau o bob tri o'r disgyblion hyn yn fechgyn. Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, cynllun iechyd a gofal ac maent yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Mae llawer o ddisgyblion wedi eu lleoli gan awdurdodau lleol o Gymru, a lleiafrif ohonynt wedi eu lleoli gan awdurdodau lleol o Loegr. Mae llawer o ddisgyblion yn preswylio yn y cartref cofrestredig i blant ar y safle.

Mae'r pennaeth addysg wedi bod yn ei swydd er mis Mai 2017. Mae cyfarwyddwr addysg yn goruchwylio'r ddarpariaeth addysg a gofal ar draws ysgolion y cwmni.

Yn ogystal â'r pennaeth addysg, mae dirprwy bennaeth, dau athro dosbarth a phedwar cynorthwyydd cymorth dysgu amser llawn. Cefnogir y tîm addysg gan dîm clinigol, gan gynnwys therapydd lleferydd ac iaith, arbenigwr ymddygiad, therapydd galwedigaethol a thechnegwyr clinigol.

Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o'r ysgol ym mis Mai 2018.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae ysgol Tŷ Bronllys yn darparu amgylchedd anogol a gofalgar sy'n cefnogi anghenion cymhleth ei disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu gwydnwch ac yn gwella eu hymgysylltiad â dysgu yn effeithiol yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Trwy gydol y pandemig, gweithiodd staff addysg a gofal gyda'i gilydd yn effeithiol i gadw'r ysgol ar agor, cadw disgyblion yn ddiogel a chefnogi eu lles a'u dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Maent yn gwrando'n ofalus ar y staff addysgu ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn agos, er enghraifft wrth baru eitemau neu ddewis tasg maent yn ei ffafrio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n dda gan ddefnyddio ciwiau dieiriau fel ystum a symbolau, yn ogystal â geiriau llafar allweddol. Maent yn hynod frwdfrydig wrth wneud dewisiadau a mynegi eu ffafriaethau, er enghraifft wrth ddefnyddio'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn ystod gwersi i fynegi eu hemosiynau neu werthuso eu cynnydd.

Mae staff yn galonogol a brwdfrydig ac mae ganddynt berthnasoedd proffesiynol cadarnhaol gyda disgyblion. Mae bron pob aelod o'r staff addysgu yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gyd-destun, anghenion a chymhelliant eu disgyblion. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus iawn i helpu rheoli ymatebion ac ymddygiad disgyblion yn yr ystafell ddosbarth ac mewn amgylcheddau dysgu yn yr awyr agored. Maent yn ymateb yn briodol ac yn ddiogel pan fydd disgyblion yn arddangos ymddygiadau heriol.

### Meysydd i'w datblygu

Er bod cynllunio tymhorol yr ysgol yn addas ar gyfer dysgu pob dosbarth, ar y cyfan, mae hyn yn gysylltiedig ag oedran ac nid yw bob amser yn gysylltiedig â cham dilyniant penodol disgybl unigol. Felly, nid yw cynllunio athrawon dros gyfnod bob amser yn diwallu anghenion penodol pob disgybl nac yn nodi eu camau nesaf mewn dysgu yn ddigon da.

Mae gan athrawon ddealltwriaeth gref o'r hyn y mae angen i ddisgyblion ei ddysgu o ran eu hanghenion sylfaenol a'r camau nesaf at annibyniaeth. Fodd bynnag, mae ansawdd y targedau ar gynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion yn rhy amrywiol. Hefyd, nid yw'r rhain yn cysylltu'n ddigon clir â chamau nesaf a nodau tymor hwy disgyblion. Mewn ychydig o achosion, mae targedau disgyblion yn rhy eang ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu'r camau dysgu bach sydd eu hangen.

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, er bod sawl gweithgaredd dysgu proffesiynol gwerth chweil wedi cael eu cynnal gyda staff, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig o ran ymestyn gwybodaeth a medrau staff yn benodol am addysgu a dysgu.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Wella gosod targedau a meini prawf llwyddiant yng nghynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion

A2 Cryfhau cynllunio'r cwricwlwm a chynllunio gwersi i alluogi staff i ddiwallu anghenion disgyblion unigol, mesur cynnydd dros gyfnod a chynllunio'n gadarn ar gyfer y camau nesaf yn nysgu disgyblion

A3 Ymestyn y cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer pob aelod o staff addysgu i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag addysgu a dysgu

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

### A1. Datblygu'r ystod o brofiadau dysgu i fodloni anghenion disgyblion sy'n llai goddefgar o amgylchedd yr ystafell ddosbarth

Ers yr ymweliad monitro diwethaf, mae'r ysgol wedi parhau i gymryd camau addas i ddatblygu'r ystod o brofiadau dysgu i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n llai goddefgar o amgylchedd yr ystafell ddosbarth.

Addaswyd yr amgylchedd dysgu i ganolbwyntio mwy o lawer ar ddysgu yn yr awyr agored a thrwyddo. Cyflwynwyd 'podiau dysgu' i ddisodli'r bloc ystafelloedd dosbarth blaenorol, a gellir mynd oddi wrthynt yn rhwydd i'r amgylchedd awyr agored estynedig. Mae'r podiau hyn yn gymharol gywasgedig, ac yn cymryd ychydig o ddisgyblion ar y tro i leihau gorlwytho synhwyraidd.

Erbyn hyn, mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnwys parthau dysgu penodol fel ardal gweithgareddau synhwyraidd, siop yr ysgol, bar ewinedd a siop barbwr. Ar y cyd â'r podiau dysgu, mae'r amgylchedd awyr agored estynedig yn galluogi staff addysgu i roi cymorth gwell i'r disgyblion hyn sy'n ei chael yn anodd aros yn yr ystafell ddosbarth. Gall disgyblion naill ai gwblhau gweithgareddau yn yr amgylchedd awyr agored neu gymryd egwylion rheolaidd i symud. Er enghraifft, yn ystod sesiynau a arsylwyd, roedd disgyblion yn gallu defnyddio amseryddion mawr yn llwyddiannus i hunanreoleiddio sesiwn ymneilltuo am bum munud yn yr ardd synhwyraidd cyn dychwelyd i'r pod dysgu ac ailymgysylltu â'u dysgu. At ei gilydd, mae disgyblion yn ymateb yn dda i'r dull hwn.

### A2. Sicrhau bod diben asesu yn glir ac yn nodi'n fanwl gywir yr hyn y mae angen i ddisgyblion ei wneud er mwyn gwneud cynnydd

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno fframwaith dilyniant masnachol yn benodol i anghenion y disgyblion hynny â CSA. Mae'r fframwaith hwn yn helpu staff i nodi blaenoriaethau dysgu pob disgybl a mesur eu cynnydd mewn meysydd fel cyfathrebu a rhyngweithio, dealltwriaeth gymdeithasol a pherthnasoedd. Mae llai o ffocws ar fonitro ac asesu datblygiad medrau eraill fel rhifedd a chreadigrwydd.

Hefyd, mae gosod targedau mewn CAUau a chynlluniau dysgu wythnosol yn parhau i fod yn amrywiol. Nid yw meini prawf llwyddiant bob amser yn ddigon penodol nac wedi eu rhannu'n dargedau llai i alluogi staff i fesur cynnydd dros gyfnod a chynllunio'n gadarn ar gyfer camau nesaf disgyblion ym mhob un o feysydd y cwricwlwm.

### A3. Darparu cyfleoedd i staff addysgu ar gyfer datblygiad proffesiynol sydd â ffocws clir ar addysgu a dysgu

Yn ystod pandemig COVID-19, rhwystrwyd cyfle i'r ysgol gynnal cysylltiadau defnyddiol â darparwyr eraill at ddibenion datblygiad proffesiynol, a oedwyd pob ymweliad. O ganlyniad, ni chynhaliwyd ymweliadau a drefnwyd yn flaenorol i arsylwi, rhannu a thrafod arfer orau. Er gwaethaf y sefyllfa hon, mae staff wedi cwblhau gweithgareddau dysgu proffesiynol addas eraill sy'n berthnasol i'w rôl. Mae'r

gweithgareddau hyn yn cynnwys mynychu sesiynau mewnol neu allanol yn canolbwyntio, er enghraifft, ar sicrhau ymwybyddiaeth gref o ddatblygiadau'r cwricwlwm newydd, hyfforddiant ar dechnoleg gynorthwyol i gefnogi addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth, a hyfforddiant pellach ar ddefnyddio symbolau cyfathrebu yn y lleoliad ehangach. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â medrau addysgu wedi eu datblygu'n ddigonol o hyd.

### A4. Sicrhau bod deilliannau prosesau hunanwerthuso yn cael eu defnyddio'n gadarn i lywio cynllunio gwelliant

Mae gan yr ysgol hanes cryf o wneud gwelliannau er budd disgyblion. Mae ei diwylliant gwella yn gynhwysol, ac mae pob un o'r staff yn monitro ac yn gwerthuso meysydd cynnydd penodol ac yn nodi meysydd i'w gwella yn rheolaidd.

Mae staff yn cwblhau dadansoddiad o'u cryfderau a'u gwendidau eu hunain yn rheolaidd, ac yn nodi cyfleoedd a bygythiadau posibl fel rhan o'u goruchwyliaeth bob tymor. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon i gyfrannu at broses hunanwerthuso'r ysgol. Er enghraifft, ceir tystiolaeth gyfyngedig o faterion a nodwyd gan staff o ran eu datblygiad proffesiynol eu hunain yn adroddiad hunanwerthuso'r ysgol, neu yng nghynllun gwella'r ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/07/2022